

**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 13eg Mai 2019**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 13th May 2019**

**Yn Bresennol/Present:**

Cynghorwyr/Cllrs Tom Cowcher, Douglas Davies, Eileen Curry, Keith Evans, Andrew Howell, Mike Hotson, Gethin Jones, Sue Lloyd, Abby Reid a Chynghorydd Sir /and County Councillor Peter Davies.

1. **Ethol Cadeirydd**:- Diolchodd Cyng Abby Reid i'r Cyngor am y fraint o gael bod yn Gadeirydd, ac adroddodd ei bod wedi cael blwyddyn bleserus, a diolchodd i bawb am eu cyfeillgarwch a'u gwaith caled. Diolchodd y Cynghorwyr i'r cadeirydd a oedd yn gorffen am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda a gwerthfawrogwyd ei gwaith caled gan bawb. Yna, galwodd y cadeirydd a oedd yn gorffen ar y Cyngor i ethol cadeirydd. Cynigiwyd yr Is-Gadeirydd, Cyng Gethin Jones yn gadeirydd gan Gynghorydd Douglas Davies; eiliwyd y cynnig hwn ar gan Gyng Keith Evans. Diolchodd Cyng Gethin Jones i'r Cyngor am gael y cyfle i fod yn gadeirydd, a chanmolodd y Cadeirydd a oedd yn gorffen am ei medrusrwydd a'i gwaith caled
  2. **Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan gynnwys y Cod Ymddygiad** gan Gyng Gethin Jones. Roedd yr holl gynghorwyr eraill wedi llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd a'r Cod Ymddygiad yn flaenorol.
  3. **Ethol Is-Gadeirydd** Galwodd Cyng Gethin Jones ar y cyngor i ethol Is-Gadeirydd. Cynigiwyd enw Cyng Douglas Davies gan Gyng Keith Evans, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Abby Reid. Diolchodd Cyng Douglas Davies i'r Cyngor ond penderfynodd wrthod y swydd. Yna, cynigiwyd y dylid ethol Cyng Sue Lloyd, ac unwaith eto, gwrthododd y swydd. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid ethol Cyng Mike Hotson yn Is-Gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Gyng Abby Reid. Diolchodd Cyng Mike Hotson i'w gyd Gynghorwyr a derbyniodd y swydd.
  4. **Ethol Pwyllgor Cynllunio** Penderfynwyd yn unfrydol y dylid ethol y canlynol i'r Pwyllgor Cynllunio:- Ward Capel Dewi – Cyng Tom Cowcher, Ward Tref Llandysul – Abby Reid, Cyng Andrew Howell a Mike Hotson Ward Tre-groes – Cyng Mrs Eileen Curry, Ward Pont-siân – Cyng Gethin Jones. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Clerc barhau i ddelio â'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol.
- Atgoffwyd yr aelodau gan y clerch o bwysigrwydd rhoi adborth am yr holl geisiadau cynllunio, yn enwedig os ydynt o fewn eu Hardal benodol nhw.**

1. **Election of Chair**:- Cllr Abby Reid thanked the Council for the privilege of being Chair and reported that she had an enjoyable year and thanked all for their friendship and hard work. Councillors thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and her hard work was appreciated by all. The retiring chair then called upon the Council to elect a chair. Councillor Douglas Davies proposed the Vice-Chair, Cllr Gethin Jones as chair; this was seconded by Cllr Keith Evans. Cllr Gethin Jones thanked the Council for the opportunity of being chair and complemented the retiring Chair for her proficiency and hard work
2. **Declaration of Acceptance of Office to Include Code of Conduct** was signed by Cllr Gethin Jones. All other councillors had previously signed the Acceptance to Office and Code of Conduct.
3. **Election of Vice Chair** Cllr Gethin Jones called upon the council to elect a Vice-Chair. Cllr Keith Evans proposed Cllr Douglas Davies this was seconded by Cllr Abby Reid. Cllr Douglas Davies thank the Council but refused the post. It was then proposed that Cllr Sue Lloyd be elected, again she refused to take up the post. It was further proposed by Cllr Keith Evans that Cllr Mike Hotson be elected as Vice Chair and duly seconded by Cllr Abby Reid. Cllr Mike Hotson thanked his fellow Councillors and accepted the post.
4. **Election of Planning Committee** It was unanimously resolved to elect the following Planning Committee:- Capel Dewi Ward - Cllr Tom Cowcher, Llandysul Town Ward – Abby Reid, Cllr Andrew Howell and Mike Hotson Tregroes Ward - Cllr Mrs Eileen Curry, Pontsian Ward – Cllr Gethin Jones. Delegated authority was given to the Clerk to continue to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.  
**The clerk reminded the members the importance of giving feedback on all planning applications especially if they were within their particular Area.**

## **5. Ethol Pwyllgor Cyllid**

Cynghorwyr Keith Evans, Gethin Jones, Aled Jones a Mike Hotson. Penderfynwyd ethol y pwyllgor Cyllid canlynol:- Cynghorwyr Keith Evans, Aled Jones, Mike Hotson a Gethin Jones.

Bydd Cynghorwyr Douglas Davies, Abby Reid ac Andrew Howell yn parhau i gyflawni rôl llofnodwyr sieciau.

**6. Archwilydd Mewnol** Penderfynwyd y dylai Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwilydd Mewnol.

**7. Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Cyng Aled Jones barhau i gyflawni'r rôl Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol.

8. **Asesiad Risg** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli'r Rheolaeth Fewnol/Asesiad Risg ac i adolygu'r Yswiriant. Penderfynwyd y dylai'r clerwr anfon copi electronig at yr holl aelodau er mwyn iddynt archwilio'r cynnwys cyn cytuno.

Yn ogystal, penderfynwyd adolygu amryw bolisiau'r Cyngor bob mis er mwyn sicrhau bod ein holl bolisiau yn briodol ac wedi'u diweddarau. Bydd y clerwr yn creu rhestr yn nodi pryd yr adolygir polisiau a'r mis y cânt eu hadolygu gan y Cyngor.

9. **Derbyn Datganiad o Gyfrifon** Cynigiodd Cyng Abby Reid y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor dros y flwyddyn, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd. Penderfynwyd bod angen i ni gadw at ein praesept mor agos ag y bo modd mewn unrhyw flwyddyn ariannol, ac y dylai'r Clerwr fonitro'r gwariant yn erbyn y proffil ariannol bob chwarter. Roedd y clerwr wedi paratoi cyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, a fabwysiadwyd wedi hyn. Penderfynwyd derbyn y gyllideb arfaethedig.

10. Cafwyd **Ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Beth Davies, Aled Jones a Llŷr Jones

## **11. Datgelu Buddiannau**

Datgelwyd Budd gan Gynghorwyr Keith Evans a Tom Cowcher mewn perthynas â'r Wyl Gerdded, cais am rodd. Gadawodd y ddau y cyfarfod.

## **5. Election of Finance Committee**

Cllrs Keith Evans, Gethin Jones, Aled Jones and Mike Hotson. It was resolved to elect the following Finance committee:-Cllrs Keith Evans, Aled Jones, Mike Hotson and Gethin Jones.

Cllrs Douglas Davies, Abby Reid and Andrew Howell would remain as cheque signatories.

**6. Internal Auditor** It was resolved that Mr R J Foulkes continues as Internal Auditor.

**7. Internal Control/Internal Checker:-**It was resolved that Cllr Aled Jones continues as Internal Control/Internal Checker.

**8. Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance have been taken. It was decided that the clerk send an electronic copy to all members to check the content before agreeing.

It was also decided to review various Council policies on a monthly basis to check that all out policies are appropriate and up to date. Clerk to produce a schedule of when policies are due for review and month to be reviewed by Council.

**9. To Receive Statement of Accounts** Cllr Abby Reid proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year this was seconded by Cllr Andrew Howell and carried. It was decided that we needed to adhere as closely as possible to our precept in any one financial year and that Clerk monitors spend against financial profile on a quarterly basis. The clerk had produced a proposed budget for the new financial year, which was duly adopted. It was decided to accept the proposed budget.

**10. Apologies** were received from Cllrs Beth Davies, Aled Jones and Llŷr Jones

## **11. Declarations of Interest**

Declarations of Interest were shown by Cllrs Keith Evans and Tom Cowcher with regards to the Walking Festival, request for donation. Both left the meeting.

**12. Minutes** of the monthly meeting held on 8th April 2019 were accepted as correct and signed by the Chair following adding that

12. Derbyniwyd bod **Cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ar ôl ychwanegu y dylid fod wedi rhestru Pentrellwyn dan Llandysul yn hytrach na Thre-groes, ac y dylid fod wedi cyfieithu Alltrodyn Hall fel Plas Alltrodyn, nid Neuadd Alltrodyn.

### **13. Materion yn Codi:-**

Roedd Cyng Llŷr Jones wedi ysgrifennu at y clerc yn diolch i'r holl Gynghorwyr am y cerdyn a anfonwyd ato ar achlysur ei briodas yn ddiweddar.

### **Cynlluniau Bro**

Atgoffwyd yr holl Gynghorwyr gan Gyng Keith Evans o bwysigrwydd cyflwyno taflenni amser. Penderfynwyd y dylai'r clerc ddod â chopïau o'r taflenni amser i'r cyfarfod nesaf er mwyn eu llenwi. Esboniodd ei fod ef, Mike Hotson ac Andrew Howell wedi cael cyfarfod gyda Martin Price ac Alan Haird ar 15 Ebrill, a'u bod wedi llunio amserlen waith.

Cyng Andrew Howell – dwyn gwybodaeth ynghylch Adfywio

Cyng Mike Hotson – Rhannu canfyddiadau a safbwyntiau ynghylch Stiwdio Stori y Goeden Nadolig

Cyng Keith Evans – Cael cyswllt gyda'r Ysgol gan ei bod yn bwysig cynnwys y grŵp oedran hwn yn y prosiect.

Roedd yr aelodau wedi mynychu cyfarfod traws-sirol yn Aberaeron i rannu profiadau. Roedd prosiect ap Wifi Aberteifi wedi gwneud argraff dda iawn ar yr aelodau, ac mae hwn yn darparu swm enfawr o wybodaeth sydd o werth mawr i fusnesau'r dref.

Mae'r holl drefi yng Ngheredigion yn gweithio at amserlen gyffredinol.

Mae Llandysul yn gweithio ar amserlen sy'n seiliedig ar y canlynol yn fras.

20/05/19- Cyfarfod gyda'r sector busnes i gadarnhau'r penawdau pwnc.

21 Mai – 31 Mai Llundio holiadur a'i argraffu.

07/06/19 – Cyfarfod yn Neuadd Tysul i gasglu safbwyntiau pobl.

24/06/19 – Llundio adroddiad o'r canfyddiadau ynghylch safbwyntiau pobl a fydd yn barod

Pentrellwyn should have been listed under Llandysul and not Tregroes and under planning Alltrodyn Hall should have been translated to Plas Alltrodyn not Neuadd Alltrodyn.

### **13. Matters Arising:-**

Cllr Llyr Jones had written to the clerk to thank all Councillors for the card that they had sent for his wedding recently.

### **Placeplans**

Cllr Keith Evans reminded all Councillors the Importance of submitting timesheets. It was decided that the clerk bring copies of the timesheets to the next meeting for completion.

He explained that on the 15 April he, Mike Hotson and Anderw Howell had met with Martin Price and Alan Haird and that they had produced a timetable to work to.

Cllr Andrew Howell – bringing information with regards to the Adfywio

Cllr Mike Hotson – Share finding and views with regards to the Christmas Tree Story Studio  
Cllr Keith Evans – To liaise with the School as it was important to involve this age group in the project.

Members had attended a countywide meeting to share experiences at Aberaeron. Members were very impressed with the Cardigan Wifi app project which was providing a huge amount of information of great value to the towns businesses.

All the towns in Ceredigion were working towards a general timetable.

Llandysul were working to a timetable loosely based on the following.

20/05/19- Meet with business sector to confirm topic headings.

21 May – 31 May Draw up questionnaire and print.

07/06/19 – Meeting in Tysul Hall to gather people's views.

24/06/19 – Produce a report on the findings of people's views to be ready by 15/07/19

29/07/19 – Present a draft place plan to a public gathering followed by a production of text and visuals in A1 size.

09/09/19- Present final version of place plan as an agenda item for Llandysul Community

erbyn 15/07/19

29/07/19 – Cyflwyno cynllun bro drafft mewn cyfarfod cyhoeddus, a ddilynir gan weithgarwch i lunio dogfennau maint A1 yn nodi testun a deunydd gweledol.

09/09/19- Cyflwyno fersiwn terfynol y cynllun bro fel eitem ar agenda Cyngor Cymuned Llandysul er gwybodaeth.

**14 Grant Thornton** – Cafwyd ffurflen Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/19. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned ei chymeradwyo **Adran 1** – Llofnodwyd y Datganiadau Cyfrifyddu sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan “9” uchod a'r Ardystiad cyn archwiliad gan y Clerc. Yn ogystal, llofnodwyd cadarnhad cyn archwilio gan y Cadeirydd a'r Clerc. **Adran 2** – Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dangoswyd hysbysiad i'r cyhoedd yn nodi bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio. Mae'r Archwilydd Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi archwilio'r cyfrifon hefyd.

## **15 Rhoddion**

### Sioe Llandysul

Cais am £500 er mwyn helpu i dalu'r costau o redeg y Sioe. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

### Carnifal Llandysul

Cais am £500 er mwyn helpu i dalu'r costau o redeg Carnifal Llandysul. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd talu cost yr yswiriant am redeg y carnifal, sef tua £200. Penderfynwyd y dylai Cyngor Abby Reid gysylltu â Chadeirydd Pwyllgor y carnifal i esbonio'r hyn a drafodwyd a'r mater o gynnwys yr holl blant yn Ysgol Bro Teifi, ac fel Cyngor Cymuned, y dylai plant o holl wardiau'r Cyngor Cymuned gael eu cynnwys heb gyfyngu ar y gystadleuaeth i'r rhai sy'n byw o fewn 3 milltir.

### Ffermwyr Ifanc Pont-siân

Cais am rodd o £400 er mwyn i Cennydd Jones deithio i America fel rhan o ymweliad cyfnewid a

Council for information.

**14 Grant Thornton** – Annual Return form for the year ended 31/03/19 was received. It was resolved that the Community Council approve **Section 1** – Accounting Statements being a breakdown of the figures approved under “9” above and the Certification prior to audit was signed by the Clerk. Also, confirmation prior to audit was signed by the Chair and Clerk. **Section 2** – It was resolved to approve of The Annual Governance Statement. Notice to the public informing that the records are available for inspection has been displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

## **15 Donations**

### Llandysul Show

Request for £500 for help with the running costs the Show. It was decided to donate the requested amount.

### Llandysul Carnival

Request for £500 for help with running costs for Llandysul Carnival. Following a lengthy discussion it was decided to pay the insurance cost of running the carnival at circa £200. It was decided that Cllr Abby Reid contact the Chair of the carnival Committee to explain what had been discussed and that the issue of involving all children from Ysgol Bro Teifi and that as a Community Council, at the very least all from the Community Council ward areas should be involved without restricting the competition to a 3mile radius.

### Pontsian Young Farmers

Request for a donation of £400 for Cennydd Jones to travel to America as part of an organised exchange visit. This would enable him to share good practice ideas on his return. It was decided to donate the requested amount and possibly invite him to our Annual Dinner to share his experiences. Cllr Keith Evans also

drefnwyd. Byddai hyn yn ei alluogi i rannu syniadau am arfer da ar ôl iddo ddychwelyd. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano a'i wahodd i'n Cinio Blynyddol i rannu ei brofiadau efallai. Yn ogystal, nododd Cyng Keith Evans y gallai Grant Cymunedol Ceredigion fod ar gael gan y Cyngor Sir.

#### Sioe Pren-gwyn

Gofynnwyd am £300 er mwyn helpu i dalu'r costau o redeg y sioe. Penderfynwyd rhoi'r un swm ag y rhoddwyd y llynedd, sef £200.

#### Treialon Cŵn Defaid Cwmsychbant

Cafwyd llythyr yn gofyn am rodd. Roedd y clerc wedi anfon ffurflen gais i'w llenwi.

#### Penwythnos Cerdded

Gofynnwyd am rodd o £300 er mwyn cynnal y Penwythnos Cerdded yn Llandysul. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

### 17 Gohebiaeth

Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-**

Cafwyd llythyr am y **Praesept** yn nodi dyddiadau talu y praesept ac fe'i nodwyd.

Cafwyd **hysbysiad** am gasgliadau gwastraff dros Wyl y Banc mis Mai ac fe'i ddosbarthwyd i'r aelodau.

Cafwyd adroddiad gan Carys Lloyd ynghylch y Ffair Adfywio.

**ULIC/SLCC** – Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 8 Ebrill a 12 Mai 2019. Cafwyd copi o gylchgrawn The Clerk.

Cafwyd llythyr gan SLCC yn cadarnhau ein bod yn aelodau ar gyfer 2019-20.

**Yswiriant Zurich** Cafwyd llythyr yn gofyn i'r Cyngor Cymuned adnewyddu ei sicrwydd Yswiriant Blynyddol. Penderfynwyd ei adnewyddu ac ysgrifennwyd siec am y swm o £1529.34.

**Bobath Cymru** Cafwyd llythyr yn gofyn am rodd a bydd y clerc yn anfon ffurflen gais.

**Age Cymru Ceredigion** Cafwyd llythyr yn

pointed out that a Ceredigion Community Grant might be available from the County Council.

#### Prengwyn Show

£300 was requested to help with running the show. It was decided to donate the same as last year £200.

#### Cwmsychbant Sheepdog Trials

Letter was received asking for a donation. The clerk had sent an application form to be completed.

#### Walking Weekend

£300 donation was requested in order to host the Walking Weekend in Llandysul. It was decided to donate the requested amount.

### 17 Correspondence

The following were received from **Ceredigion:-**

**Precept** Letter was received with regards to payment dates of the precept and noted.

**Notice** of waste collections over the May Bank Holiday was received and distributed to members.

A report from Carys Lloyd with regards to Ffair Adfywio was received.

**OVW/SLCC** – Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 8 April – 12 May 2019 was tabled.

A copy of the Clerk magazine was received.

A letter was received from SLCC confirming that we are members for 2019-20.

**Zurich Insurance** Letter was received asking the Community Council to renew their Annual Insurance cover. It was decided to renew and a cheque was written for £1529.34.

**Bobath Cymru** Letter asking for a donation was received the clerk to send an application form.

**Age Cymru Ceredigion** Letter was received asking for a donation. The clerk to send an application form.

**HAGS** Catalogue was received and noted.

gofyn am rodd. Bydd y clerch yn anfon ffurflen gais.

Cafwyd catalog **HAGS** ac fe'i nodwyd.

### **Anfonebau**

**Ron Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Mawrth 2019 a'r Archwiliad blynyddol wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sicc am y swm o £ 100 er mwyn talu'r ffi.

(Ymunodd Beth Davies â'r cyfarfod)

### **18. Materion Wardiau**

#### **Llandysul**

Cafwyd llythyr gan Rospa yn hysbysu'r Cyngor Cymuned y byddai Lle Chwarae i Blant Parc Coffa Llandysul yn cael ei archwilio ym mis Mehefin.

Adroddwyd bod un o'r bysedd troed ar y fainc siâp troed yn anniogel. Penderfynwyd y dylai'r clerch gysylltu â Rhodri Thomas er mwyn gofyn iddo ei thrwsio.

Adroddodd y cynghorwyr nad oes mwy o dwmpathau gwadd a bod arwydd dim cŵn yn y parc wedi diflannu. Bydd y clerch yn gwneud ymholiadau ynghylch disodli'r arwydd, ond yn y cyfamser, bydd Cyng Abby Reid yn argraffu arwydd i'w arddangos.

Esboniodd Cyng Abby Reid bod gweithwyr a fu'n gweithio ar fedd yn y fynwent wedi cael problemau gyda'r warden parcio wrth iddynt ddadlwytho. Esboniodd Cyng Keith Evans mai gwneud ei waith oedd y swyddog, ond y byddai'n rhoi sylw i'r gŵyn.

Bydd y clerch yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch y posibilrwydd o gael golau stryd ar y postyn gyferbyn â'r Pwll Nofio, gan geisio dyfynbrisiau am hyn.

**Pont-siân** Roedd Cyng Gethin Jones yn dymuno diolch i'r Cyngor Sir am eu hymateb cyflym pan fu achos o dipio anghyfreithlon gerllaw y biniau ailgylchu ym Mhont-siân.

Esboniodd hefyd, oherwydd y ffaith bod y cloddiau'n llawn tyfiant, nad yw'r arwyddion terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr rhwng Rhydowen a Phren-gwyn ac ar y clawdd wrth ochr Mynwent Carmel, yn amlwg.

Nid yw'r Ffordd o Fron a Chletwr wedi cael

### **Invoices**

**Ron Foulkes** - Confirmation was received that the accounts as at 31 March 2019 and annual Audit had been examined and found to be correct based on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £ 100.

(Beth Davies joined the meeting)

### **18. Ward Matters**

#### **Llandysul**

A letter had been received from Rospa to notify the Community Council that Llandysul Memorial Park's Children's Play Area would be inspected in June.

It was reported that the bench in the shape of a foot that one of the toes was unsafe. It was decided that the clerch contact Rhodri Thomas in order for him to repair it.

Cllrs reported that there were no more mole hills and that the no dogs in the park sign had disappeared. The clerch to look into replacing the sign but in the meantime Cllr Abbey Reid would print out a sign to be put on display.

Cllr Abby Reid explained that workmen attending to a grave in the churchyard had had problems with the parking warden while unloading. Cllr Keith Evans explained that the officer was only doing his job but would follow up the complaint.

The clerch to contact the County Council with the possibility of having a street light on the post opposite the Swimming Pool and seek quotations for same.

**Pontsian** Cllr Gethin Jones wished to thank the County Council for their swift response when fly tipping had occurred in the recycling bins in Pontsian.

He also explained that due to overgrown hedges that the 30mile an hour speed limits between Rhydowen and Prengwyn and on the hedge by the side of Carmel Cemetery weren't visible.

The Road from Fron and Cletwr still had not been cleared and the school bus had to go around in order to get to Maesyneillion. The clerch to contact the County Council to report all.

ei chlirio o hyd, ac mae'n rhaid i'r bws ysgol fynd o gwmpas er mwyn cyrraedd Maesymeillion. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i adrodd am y rhain i gyd.

Yn ogystal, roedd Cyng Gethin Jones wedi cael cwynion gan aelodau'r Gymuned ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus ym Mlaenallt ddu a chyflwr y ffordd. Gan mai ffordd y Cyngor Sir yw hon, penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â nhw.

(gadawodd Eileen Curry y cyfarfod)

19. **Cyllid** Penderfynwyd y dylai'r clerc lunio ffurflen erbyn y cyfarfod nesaf fel y gall Cynghorwyr benderfynu ar yr hyn y maent yn dymuno ei wneud gyda'u lwfans o £150, sydd yn y gyllideb fel taliad i'w wneud yn ystod y cyfarfod a gynhelir ym mis Ebrill.

20. **Lwfans y Cadeirydd** Penderfynwyd y dylai swm y lwfans aros yr un peth, sef £300.

21. **Cyflog y Clerc** – Penderfynwyd y dylid codi cyflog y clerc i'r pwynt cynyddrannol nesaf (pwynt 21), fel y cytunwyd yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, a bod hyn yn unol ag argymhellion NALC.

22. **Deunydd ysgrifennu** Penderfynwyd y gallai'r Clerc brynu inc a deunydd ysgrifennu angenrheidiol heb i'r Cyngor orfod cytuno ar hynny ymlaen llaw. Yn dilyn adroddiad ar lafar gan y Clerc am y problemau y mae hi'n eu cael gyda'i gliniadur, penderfynwyd y gallai'r clerc gysylltu â Cliand Computers fel y cyflenwyr a ffafrir er mwyn disodli gliniadur y clerc, gan sicrhau bod yr holl raglenni a'r data yn cael eu trosglwyddo i'r gliniadur newydd.

23. **Cynllunio**

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhaliwyd ar 08.05.19.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

24. A190209 – 12-13 Stryd Lincoln, Llandysul

Cllr Gethin Jones had also received complaints from members of the Community regarding the public right of way in Blaenallt ddu and the state of the road. As the road belongs to the County Council it was decided that the clerk contact them.

(Eileen Curry left the meeting)

19. **Finance** It was decided that the clerk create a form by the next meeting so that Councillors can decide on what they want to do with their allowance of £150 which is in the budget payment to be made in the April meeting.

20. **Chair's Allowance** It was decided that the allowance should remain at £300.

21. **Clerk's Salary** – It was decided that the clerks salary would be raised to the next incremental point (point 21) as agreed at December 2018 meeting and that this was in accordance with NALC recommendations.

22. **Stationary** It was resolved that the Clerk could purchase necessary stationary and ink without prior agreement by Council.. Following an oral report by Clerk re problems she was encountering with her laptop. It was decided that the clerk could contact Cliand Computers as preferred suppliers in order to replace the clerks' laptop and to ensure that all programmes and data would be transferred to the new laptop.

23. **Planning**

Notice of the Development Control Committee Meeting held on 08.05.19 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A190209 – 12-13 Lincoln Street, Llandysul



**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/

Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	
Nia Davies	Rhyngwrwyd/Broadband	105.00	000764
Nia Davies	Postio/Postage	36.00	000765
Nia Davies	Cyflog y Clerc/Clerk Wages	444.19	000766
Nia Davies	HMRC	111.04	000767
Cennydd Jones	Rhodd/Donation	400.00	000768
Ron Foulkes	Awdit/Audit	100.00	000769
Zurich Insurance	Yswyriant/Insurance	1529.34	000770